YR YMOFYNYDD.

Rhif. 36.] RHAGFYR, 1861. [Ail Gyfres.

COFION A CHYFFESIADAU.

Llythyr IV.

"For a fundamental opinion had already confirmed itself in me; that in any thing which is handed down to us, especially in writing, the real point is the ground, the interior, the sense, the tendency of the work; that here is the original, the divine, the effective, the intact, the indestructible; and that no time, no external operation or condition can in any degree affect this internal primeval nature, at least no more than the sickness of the body affects a well cultivated mind."—Goethe.

Yr oeddwn yn arfer edrych ar y Beibl fel llyfr, yn y dull y mae yn ein dwylaw ni yn awr, hollol annibynol ar bob gwendid dynol; ar ei eiriau fel yr un a'r unrhyw eiriau ag a lefarasai Duw, ac ar ei awdwyr fel yn llwyr anffaeledig yn yr oll a ysgrifenasent. Yn awr dechreuais feddwl am dano o ran natur ei gyfansoddiad, ac amgylchiadau ei drosglwyddiad o iaith i iaith. Ces nad llyfr wedi ei ollwng i lawr o'r nefoedd yn ei gyfander presenol oedd, ond mai yn ychydig ac ychydig y cawsai ei ysgrifenu, ac mai nid un dyn, ond llawer o ddynion, a'r rhai hyny yn amrywio yn ddirfawr mewn gallu, dysg, a chymeriad, fu a llaw yn ei gyfansoddiad. Ces fod amser hirfaith, yn rhywle o ddeuddeg i bedwar canrif ar ddeg, yn cael ei gymeryd i fynu rhwng y llyfr henaf ynddo—Genesis dichon—a'r diweddaraf —y bedwaredd Efengyl yn debyg. Gwelais fod cynwysiad y gwahanol lyfrau yn amrywio llawer, a hyny gyda golwg ar y testunau mwyaf pwysig, megis y cymeriad dwyfol a'r addoliad gweddus iddo. Wrth gymharu fel engraifft Salmau 104 a 139 a chaniad Solomon, neu lyfr Esther â phregeth Crist ar y mynydd, nis gallwn braidd ddychymygu mwy o wahaniaeth yn nghorff unrhyw lyfr yn y byd. A allasai fod yr unrhyw berthynas rhwng pob rhan o hono â ni yn yr oes hon? A oedd sel yr un ysprydoliaeth wrth bob rhan? A ddysgwylid i ni yn awr gymeradwyo llawer o weithredoedd, ac ymhyfrydu mewn llawer o olygfeydd, na roddid yr un awgrym nad oeddynt ar y pryd yn dderbyniol yn y nef? A oedd pob peth a wnaethid gan rai o'i gymeriadau penaf, heb air o gerydd, yn esiampl i ni? A oedd iaith pob un a lefarasai yn gymhwys i ni i'w harfer yn awr? I ddyn yn ei agor, ai nid oedd dim pwys pa le yr agorai ef; ac a oedd i dybied nad oedd y cyfan ond blwch mawr o emau drudion, yn gwahaniaethu yn wir mewn llun a maint, ond oll yn emau pur; neu mewn geiriau eraill, nad oedd y cyfan ond un gloddfa oludog o aur, heb wahaniaeth yn y byd yn mha gwr y dechreuai gasglu? Yn ymarferol, nid felly y buasai'r llyfr i mi: er fy mod, fel mater o gred, wedi fy nysgu i'w dderbyn yn y dull diofal hwn.

Drachefn, os oedd y llyfr yn anffaeledig, fel y mynid ei fod, pa fodd yr oedd i ddyn ddyfod o hyd i'w ystyr anffaeledig? Nid oedd un diben yn

cael ei ateb trwy roi llyfr anffaeledig, heblaw i ryw reol anffaeledig hefyd gael ei rhoi ar yr un pryd. Gwyddwn fod allweddau ac esponiadau yn ddirif braidd wedi eu hysgrifenu ar ei gyfer, ac yr oedd i'w gasglu oddiwrth hyn fod rhywfaint o anhawsder i'w ddeall, a bod yma waith i'r meddwl, ac nad oedd yr un geiriau yn trosglwyddo yr un ystyr i bob rhai, ac o ganlyniad bod galwad i bwyso gwahanol resymau y naill yn erbyn y llall. Os anffaeledig y llyfr, meddwn i ba les? gan fod y dynion ffaeledig ar gyfer y rhai yr ysgrifenwyd ef yn methu â chydweled yn ei gylch. Haera braidd pob plaid o Brotestaniaid mai anffaeledig a gwyrthiol ddadguddiad Duw i'r byd yw, ac â'r un anadl bydd y naill yn ei esponio fel hyn, y llall yn groes hollol. Ni fu mwy o groes-ddadleu uwchben un llyfr erioed; nid oedd mwy ynghylch ystyr atebion amwys yr oraclau paganaidd. Os dywedid fod yr Hen yn esponio'r Newydd, a'r Newydd yntau yn esponio'r Hen, pwy oedd i benderfynu pa bryd, pa le, neu yn mha fodd.

Dygai yr ymholiadau hyn fi at gwestiwn mwy sylfaenol eto: a oedd i'w ddysgwyl yn ol a wyddom ni am drefnau holldoeth y Goruchaf—y buasai Ef yn rhoddi unrhyw ddadguddiad i dra-awdurdodi ar y rheswm a'r gydwybod—i gael ei dderbyn yn unig ar awdurdod, ac nid yn ganlynol i ymchwiliad iddo a dealltwriaeth o hono? Ai nid oedd dadguddiad Duw a rheswm dyn i ddyfod i gyffyrddiad a'u gilydd? I ba beth y rhoddasid rheswm i ddyn? Paham y dodasid y rheswm hwn o fewn dyn, tra na ddeuai'r dadguddiad ond oddiallan, os mai i'r olaf y perthynai'r uwchafiaeth? Cwynid mai ffordd oedd hon i ddyrchafu rheswm dynol mewn gwrthwynebiad i'r doethineb anfeidrol. Gofynwn inau, Pa beth a wnewch chwi wrth esponio a dyfynu a didol a chysoni, ond arfer, neu o leiaf gymeryd arnoch arfer eich rheswm? Ac os felly, pa le mae'r ffîn rhwng tiriogaeth ffydd a rheswm genych? Pa le y mae cenad i reswm, wedi diosg ei esgidiau oddiam ei draed, sefyll arno o fewn i'r tir cyssegredig hwn? Pan yn gofyn genyf i gredu yn ymadroddion Duw, dangoswch i mi yn mlaenaf oll pa *beth* y darfu iddo ei lefaru. Os cydunwch chwi yn eich penderfyniad ar hyn, addawaf ymostwng i chwi; os na fedrwch, caniatewch i mi arfer fy rheswm fy hun er ceisio penderfynu.

Yr oedd yn eithaf hawdd dweyd fod Moses a'r proffwydi yn rhag-ymadroddi yr hyn a draethent yn fynych a'r geiriau, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd," "Yr Arglwydd a lefarodd," neu "Daeth baich gair yr Arglwydd." Ond a olygai hyn mai digamsynied eiriau Duw a lefarent? Ai ni allent ystyried eu hunain yn gyfryngau addysgiadau a rhybuddion dwyfol i'w cydgenedl heb ar yr un pryd honi eu bod yn anffaeledig? A oes sail i dybied mai nid yn y goleu hwn yr edrychent arnynt eu hunain? Ac a thybied yr honent hawl mewn ysprydoliaeth uwch, h. y., anffaeledig, onid yw yn rhesymol dysgwyl fod ganddynt rywbeth heblaw eu haeriad noeth er boddloni pob meddwl ymofyngar o wirionedd eu cenadwri?

Nid ceisio egluro yr ymholiadau hyn yn foddhaol i mi fy hun, oedd fy amcan yn awr yn gymaint â gwneyd y prawf goreu a allaswn o wirionedd y golygiadau cyffredin ar y pwnc. Yr oeddwn am gael allan, os yn bossibl, a oedd yr anffaeledigrwydd a hawlid gan eraill ar ran y Beibl yn cael ei hawlio gan yr awdwyr eu hunain, ac hefyd a oedd yn gyson a rhyddweithrediad a chyfrifoldeb dyn.

Dichon y syna rhai na buaswn yn y sefyllfa meddwl hon yn cael fy ngyru i astudio'r ieithoedd gwreiddiol yn ddyfalach, o flaen pob peth arall, er deall

yn well pa beth a ddysgai'r adnod hon, neu'r llall, a pha faint a allai cyfieithu y gair a'r gair ychydig yn wahanol effeithio ar y pwnc. Ond yr oedd y mater wedi cymeryd ffurf wahanol i hyn yn fy meddwl. Credwn nad cwestiwn o adnodau a geiriau oedd, ond ei fod yn y pen draw yn ddim amgen nag un o barth i ganol-swn a phrif nodwedd addysg yr Ysgrythyrau, eu perthynas a'r rheswm a'r gydwybod, a swydd yr olaf mewn pethau crefyddol. Yr oedd genyf yn wir fwy o barch i'r Beibl nag i'w roi i fynu i ddwylaw'r geiriaduron a'r esponiadau yn gyfangwbl. Os yn bossibl, yr oeddwn am ei roesawu a'i anwylu yn fy mynwes fy hun er gweled a fuasai ef a minau yn alluog i ddeall ein gilydd heb neb i gyfryngu rhyngom. Darllenwn fwy arno gyda'r dyben i gymharu ei wahanol ranau a'u gilydd nag erioed o'r blaen. Ceisiwn ymryddhau o bob rhagfeddiant *(prepossession)* boreuol, ac anghofio dros yr adeg mai Ysgrythyrau gwleddydd cred oedd genyf mewn llaw, a thaflu fy hunan yn ol, hyd y gallwn, i gyflwr un yn ei ddarllen am y waith gyntaf, er mwyn ymddwyn ato fel yr ymddygir gan bob ymofynydd meddylgar at llyfrau eraill. Meddyliwn os, na ddaliai'r Beibl i'w brofi fel pob llyfr arall, ar sail ei gynwysiad, a'i gysondeb ag ef ei hun, ac â ffeithiau diymwad gwybodaeth dynol, mai ofer oedd hawlio iddo uwch awdurdod; ac nad oedd gwahardd y cyfryw ddull o ymdrafod ag ef yn ddim ond bradychu amheuaeth o'i wendid, neu ynte wneyd y fath lyfr o hono nas gallasai fod yn gymhorth i ddyn, trwy ei symud y tu faes i gylch myfyrdod ac argyhoeddiad. Galwyd fy sylw at olygiad a rhesymau *Gaussen*, yr hwn sy wedi ysgrifenu yn gryn helaeth dros yr hyn a adnabyddir fel ysprydoliaeth cyflawn *(plenary inspiration)* yr Ysgrythyrau, h. y., fod pob gair yn gystal a phob meddylddrych yn effaith dwyfol gyfarwyddid. Ond cawn fod hyn yn myned yn rhy bell i'r mwyaf craffus yn mhlith yr iawn-gredwyr eu hunain, a bod y dosparth cymedrol o honynt yn dewis yn hytrach rhyw lwybr canol, megis nad y geiriau yn gymaint a'r meddylddrychau sy wedi eu hyspŷdoli; y cai'r awdwyr ryddid i ddewis eu hiaith, ond fod gwyliadwriaeth uniongyrchol o'r nef yn cael ei chadw rhag eu bod yn gyfeiliorni mewn dim, hyd yn oed y peth lleiaf. Gallaf ddweyd yn gydwybodol i mi ddarllen a phwyso'r rhesymau dros y golygiad hwn gyda chymaint o sylw a phwyll ag oedd ddichonadwy i mi. Nis gallaf yn awr wneyd mwy na nodi canlyniadau fy ymchwil. Yr argraff ar fy meddwl yn y diwedd oedd nad oedd yr hawl a osodid i fynu ar ran y Beibl yn cael ei chyfreithloni gan y profion a ddygid yn mlaen, ac mai anghyfiawnder ag ef oedd i'w amddiffynwyr gymeryd y fath dir eithafol. Pa fwyaf a chwiliwn i mewn i'r llyfr ei hun, ac i'r honiadau cyffredin, pellaf i gyd oeddwn o enill cadarnhad o'r anffaeledigrwydd a briodolid iddo. Yr oedd teimlad o siomedigaeth yn dilyn. Yr oedd ymddiried mewn ysgrifenwyr duwinyddol yn lleihau. Yn yr amgylchiad ag oeddwn, nis gallwn lai na chyfrif fod yn eu gweithiau fwy o swn na sylwedd, fwy o daranu nag o ymresymu. Gofynaswn am oleuni, ond gadawsant fi yn y tywyllwch gymaint ag erioed; am fara gwybodaeth y taer-geisiwn, ni roisant i mi ond ceryg celyd eu haeriadau. Os gyrodd hyn fi i fod yn amheus a chwerw am dro, a yw i'w ryfeddu? Nid athronydd hen a pherffaith hunan-feddianol oeddwn, ond dyn ieuanc. Nid gorwedd yn y porthladd yr oedd fy llestr eto, ac nid hwylio o flaen yr awel lariaidd ar fôr tawel, ond tynu yn erbyn gwynt a thonau yn nghanol nos amheuaeth, a llawer cwmwl du yn myned rhyngof a'r goleuni oddiuchod, mewn ofn ac weithiau anobaith na chyrhaeddasai byth yr hafan ddymunol a chwiliai am dani.

Parhaodd yr agwedd meddwl hon am dro. Er mor ofidus oedd, perthynai iddi lawer o ddyddordeb a bywyd, yn annibynol ar y canlyniadau i ba rai y gallasai fy arwain. Cai fy meddwl ei symbylu i weithgarwch diorphwys. Cai pob peth ei droi i wasanaethu er taflu rhyw oleuni ar y testunau dan sylw. Yr oedd genyf ddigon i ymddiddan a'm cyfeillion yn ei gylch. Ar ryw olwg buasai yn dda genyf pe cawswn genad i barhau yn yr agwedd meddwl hon am amser annherfynol. Teimlwn bwysigrwydd yr ymdrech a'r angenrheidrwydd i mi wneyd pob ymgais yn awr tuag at fabwysiadu egwyddorion a golygiadau sylfaenol, dyogel i'w dilyn trwy fy oes. Yr oedd llawer o bethau yn ffafriol i mi, ond gormod fuasai dysgwyl cael yr oll.

Gwyddit yn awr fod rhyw gyfnewidiad rhyfedd wedi dyfod droswyf. Mynychwn yr un addoliad a chynt, ond nid gyda'r un blas. Grwandawn yn awr i adfyfyrio, ac nid i ddifyru fy hun dros yr amser. Yr oedd llawer o'r hyn a glywn yn awr yn ddim amgen na swn i mi, ond nid amddifad o bob hyfrydwch oblegyd adgofion boreuol. Yr oedd llawer tant a arferasai roddi pleser wedi myned i seinio yn gras ac aflafar. Ymddieithrio yr oeddwn yn raddol, gan deimlo fod hen gysylltiadau ar gael eu tori i fynu. Yr oedd llai a fynwn â'r rhai y buaswn unwaith yn mwynhau llawer o'u cyfeillach. Cyrchai y meddwl ar ol attyniadau newyddion. Yr oedd rhyw deimlad o waredigaeth o gaethiwed ag y buaswn yn hir a thawel aros ynddo, am nad oeddwn eto wedi gweled gwawr rhyddid yn tori o fy mlaen. Pan y dechreuais droi a symud yn unig y clywais drwst y cadwynau, ac y deallais fy mod yn gaeth. Nid oeddwn wedi cyrhaedd y man oeddwn arno heb yn wybod i'r cyhoedd, ac yr oedd pob cam a roiswn allan o'r hen lwybrau wedi ei liosogi lawer gwaith drosodd. Er yn ddiuôd ni ddiengais rhag gwrthwynebiad. Nid oedd y fath gyfnewidiad yn debyg o gael ei adael yn ddisylw, ac yn wir ni ddylasai. Ni chymerais un drafferth i wneyd sefyllfa fy meddwl yn hyspys, tra yr oeddwn yn cael fy nhaflu fel hyn yn ol ac yn mlaen, gan nad ystyriwn hi yn iawn i wthio fy nhrafferthion personol ar sylw eraill; i'r ychydig y gwneuthum, ar sail cyfeillgarwch blaenorol, ni dderbyniais oddiwrthynt, gydag ychydig o eithriadau anrhydeddus, gymaint o gymhorth a chydymdeimlad ag yr oedd genyf le yn rhesymol i ddysgwyl. Nid oddiwrth hen gyfeillion y profais y caredigrwydd mwyaf ar yr achlysur hwn; nid eu geiriau hwy fu'r tyneraf i mi. Ond nid wyf yn myned i achwyn. Mae pob briw a roddwyd i mi y pryd hwnw wedi iachau erbyn heddyw, a cholyn pob drygair cenfigenus neu watwarus wedi peidio a fy aflonyddu er ys llawer blwyddyn bellach. Er na adawyd fi heb gyfeillion anwyl a gwerthfawr, galluog a pharod i fy nghyfarwyddo, gwelais fod yn rhaid i'r frwydr gael ei hymladd genyf fi fy hun: a hyn a geisiais wneyd yn nghanol profiadau nad es drwyddynt na chynt na chwedyn. Teimlwn mor angenrheidiol oedd annibyniaeth yma, ac mor ddymunol oedd i mi allu tori fy hun ymaith oddiwrth bob cysylltiadau sectyddol, heb deimlo yn ymrwymedig wrth unrhyw ysgol na phlaid, na bod yn gaethwas i unrhyw arosodiadau traddodiadol; a fy hiraeth penaf oedd am allu sefyll allan yn ddilyffeitheiriau, rhydd i ganlyn y gwirionedd pa le bynag y tywysai. Nid hawdd oedd hyn. Nid hyfryd! yr anturiaeth bwysicaf mewn bywyd. Mordaith ar hyd ddyfnderoedd dilwybr i mi. Pe rhoddwn ffordd i'm teimladau, gallwn ysgrifenu llawer yma. I'r rhai a wyddant trwy brofiad am y fath gyflwr, nid oes eisiau dweyd rhagor, ond er mwyn y rhai ni wyddant, gwnaf, feallai, godi ychydig ar gwr y llèn dywyll yn fy llythyr nesaf.

LIBERTINUS.

FFURFIAU GWEDDI.

Mr. Gol.,—Buasai yn dda genyf weled ychydig o ffurfiau gweddi yn cael eu hargraphu yn yr Ymofynydd, er mwyn cyfarwyddo, yn neillduol ieuenctyd yr oes sydd yn codi yn eu defosiynau crefyddol. Wele yn canlyn un i ddechreu, yr hon a gyfieithiwyd o'r Saesneg, os ystyriwch hi yn addas, feallai y rhoddwch le iddi. Sierlyn.

GWEDDI FOREUOL.

O Dad! Ffynhonnell goleuni, a dechreuol achos pob daioni! Derbyn yn raslon fy niolchgarwch mwyaf diffuant am y bodolaeth a roddaist i mi, ac am y galluoedd â'r rhai yr ydwyt wedi fy nonio. I ti yr ydwyf yn ddyledus am bob cysur yr ydwyf yn ei fwynhau; trwy drefn dy ragluniaeth di yr ydwyf wedi derbyn addysgwyr doeth a chariadus. O Dduw Hollalluog! na foed i mi fod yn anystyriol o'th ddaioni di, nac yn ddifeddwl am y dyledswyddau yr ydwyt wedi fy ngalw i gyflawni! Bydded i mi bob amser ystyried yn ddwys gwerth a phwysfawrogrwydd gwybodaeth, a'r peryglon o esgeuluso arfer y galluoedd yma a'r rhai yr ydwyt wedi fy nghynnysgaeddu, er lles a chysur i mi fy hun, ac i'm cydgreaduriaid. Tra yr ydwyf yn parhau mewn cyflwr o barottöad ar gyfer blyneddau oedran, bydded i mi yn ofalus i drysori addysg, a derbyn gyda diolchgarwch bob cynnorthwy a roddir i mi er diwylliant fy meddwl. Gan wybod y peryglon i'r rhai y mae yr anwybodus yn ddarostyngedig, a chan ystyried y cyfrif, y bydd i ti etto i ofyn oddiwrthyf am y talentau sydd wedi eu rhoddi tan fy ngofal, bydded i mi ystyried y cyflymdra a'r hwn y mae y manteision yr ydwyf yn awr yn eu mwynhau yn myned ymaith, a bydded i mi gael fy arwain i fod yn fwy diwyd yn yr amser sydd etto yn aros i mi cyn myned i sefyllfa mwy pwysig mewn bywyd.

Yn neillduol, O Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, bydded i mi argraphu ar fy meddwl yr addysg grefyddol a dderbyniaf, a gosod gwerth mawr ar y wybodaeth hono a'm gwna yn ddoeth i iechydwriaeth. Bydded i mi ddysgu gyda diwydrwydd egwyddorion y grefydd sanctaidd hono, yr hon raid fod yn arweinydd ac yn gynnorthwy i mi yn yr amser dyfodol o'm bywyd, a thrysori yn ofalus yr holl wersi hyny a'm cyfarwyddant yn ddiogel trwy holl daith y fuchedd hon. Bydded i mi o ddydd i ddydd i ddysgu mwy o hunanlywyddiaeth, a chyrhaeddyd yr arferiad o ddarostwng pob tueddiad ammhriodol, ac i weithredu oddiar barch yn unig i'th ewyllys di. Tra yr ydwyf yn ymdrechu cyrhaedd y wybodaeth hono, yr hon a'm parottöa i fod yn ddefnyddiol yn mha gyflwr bynnag y'm gosodir gan dy ragluniaeth di, bydded i mi ddysgu ofn yr Arglwydd, a thrysori sail sicr am obaith, pan byddo'r daith ddaearol yn tynnu at ei therfyn. Felly bydded fy ieuenctyd yn rhyngu dy fodd di, a'm blynyddau dyfodol yn ddefnyddiol ac yn ddedwydd, a bydded byd o wybodaeth a rhinwedd byth-gynnyddol yn rhan dragwyddol i mi.

Yr wyf yn diolch i ti, Ceidwad dynolryw, am orphwysdra y nos sydd wedi myned heibio, ac yr wyf yn cyflwyno fy hunan i'th ofal dros y dydd presennol. Cadw fi rhag ymddygiad ammhriodol, a nertha fi i gyflawni pob penderfyniad rhinweddol. Bendithia bawb, fy nghyfeillion, a'm perthynasau, dyro iddynt bob daioni angenrheidiol, ac yn y diwedd, una ni a'r gymdeithas nefol hono, yr hon nis gall neb ei rhifo, oddiamgylch i orsedd dy ogoniant di, yn oes oesoedd. Amen.

CARIAD A GWYBODAETH.

Pregeth a draddodwyd yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin, Mehefin 23*ain*, 1861. *Gan Thomas Sadler*, PH.D.

GWEDI EI CHYFIEITHU GAN DR. LLOYD.

PHILIP i. 9—11.—"A hyn yr wyf yn ei weddio, ar amlhau o'ch cariad chwi etto fwyfwy mewn gwybodaeth a phob synwyr; fel y profoch y pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt; fel y byddoch bur a didramgwydd hyd ddydd Crist, wedi eich cyflawni â ffrwythau cyfiawnder, y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw."

(*Parhad o tudal.* 231).

YR ydys yn rhy barod i ysgaru cariad a gwybodaeth, gan ystyried bod gwybodaeth yn perthyn yn unig i'r *deall*, a chariad i'r *galon*. Ond fel y dywedwyd yn barod, nis gellir effeithio ar y galon ond trwy'r deall. Gwybodaeth sydd yn gwareiddio a moesoli'r nwydau ac yn tyneru'r galon. "Chwi a gewch wybod y gwirionedd (medd ein Harglwydd), a'r gwirionedd a'ch rhyddhâ chwi." *Rhyddhâ* chwi yn mhwy ystyr? Yn mhob ystyr! "A'ch rhyddhâ chwi" o gadwynau rhagfarn a phob tywyllwch—a'ch rhyddhâ chwi o bob ofn ac ammheuaeth mewn perthynas i Dduw a'i ddybenion gogoneddus—a'ch rhyddhâ chwi o'r cyfeiliornadau nifeiriol ag sy'n nglyn â meddyliau dynion yn gyffredin—a'ch rhyddhâ chwi oddiwrth bob peth a all beri i chwi boen neu annedwyddwch yn y drefn sydd dan ofal eich Tad Nefol!

Gwybodaeth hefyd yw'r *llyw* ag sydd yn cyfeirio cariad bob amser at ei waith priodol. *Heb wybodaeth* nid yw cariad ond nwyd yn unig, yn *gyru* y cyfryw ag sy dan ei dylanwâd i afresymoldeb!

Yr achos fod cariad yn Iesu mor *fawr*, oedd, fod ei wybodaeth mor gyflawn—mor helaeth. Ac fel yr ydym yn cynhyddu ar ei ddelw—fel ag y mae'n hadnabyddiaeth o'i egwyddorion a'i wirioneddau yn ymhelaethu, felly hefyd y mae ein "cariad yn amlhau atto fwy-fwy trwy wybodaeth a phob synwyr." Nid yw cariad heb wybodaeth fawr yn well na "zêl heb wybodaeth." Fe wna pob un o honynt fwy o *ddrwg* na *da* yn myd moesol Duw!

Mae'r ddwy (cariad heb wybodaeth a zêl heb wybodaeth) gwedi bod yn foddion, cyn hyn, i achosi drygau dirif ymhlith creaduriaid rhesymol Duw! A phan y byddont yn myned allan law yn llaw, mewn *gwisg o grefydd*, y maent yn fwy dinystriol nag un bwystfil yn nghreadigaeth y Goruchaf! Cariad heb wybodaeth sydd *gam-gariad*—caru'r hyn ni ddylid ydyw—caru'r hyn a ddylesid ei *gashâu*. Caru heb wybodaeth yw caru mewn tywyllwch—caru heb wybod dim am wir wrthrych cariad. Yr oedd Mahomed yn arferol o ddywedyd—"Y mae dau beth ag yr ydwyf yn gashâu—y *dysgedig* yn ei anffyddiaeth, a'r *ffol* yn ei goel-grefydd." Mae holl hanes y grefydd Gristnogol yn ein dysgu, yn y modd mwyaf amlwg, mai'r erlidwyr mwyaf creulawn, yw'r Cristnogion mwyaf anwybodus. Gelynion mwyaf ffyrnig, heb dynerwch cariad a daioni, yw coel-grefyddwyr y byd! Ac fel ag y mae gwybodaeth yn cynhyddu, mae coel-grefyddau yn colli eu gafael ar feddyliau y werin. Nis gall *dyn gwybodus* fod yn *erlidwr*. Ble bynag y gwelir *erlidwr*, gellir penderfynu ar unwaith fod ei wybodaeth yn arwynebol iawn. Mae pob erlidwr yn ddyn hunanol, uchel, a balch. *Efe ei hun* sydd *bob peth* yn ei olwg ei hunan; ac yn ei anwybodaeth o hono ei hun, mae ef yn

tybied ei fod yn bob peth yn ngolwg Duw hefyd! Prif bwnc y cyfryw ddyn bob amser yw, "*etholedigaeth bersonol*," Ond fel ag y mae goleuni a gwybodaeth y grefydd Gristnogol yn gwawrio ar y deall, mae'r *hunan mawr* yn cilio, gan bwyll, o'r golwg, nes y byddo i ddiflannu yn llwyr, ac *ereill* (personau a phethau ereill) yn llanw'r meddwl a'r galon i'r fath raddau ag i gyfroi y telmladau tyneraf tuag at bawb oddiamgylch iddo. Yma y gwelir *gwerth* gwybodaeth: yma hefyd y gwelir iawn feddwl, a gwerth geiriau ein testun. Gweddi Paul, a gweddi pob un ag sydd yn yspryd Paul, yw, i "gariad amlhau etto fwy-fwy trwy wybodaeth a phob synwyr," fel y gallo dyn, a *phob dyn*, brofi y pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt (sef, y drwg a'r da), ac y byddom oll yn bur a didramgwydd hyd ddydd Crist, wedi ein cyflawni â ffrwythau cyfiawnder, y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant Duw Dad."

Fe buasai yn hawdd chwanegu profion i fod dynion, fel ag y maent yn cynhyddu mewn gwybodaeth, yn cynhyddu hefyd mewn parch tuag at Dduw, a chariad tuag at ddyn. Hyn yw profiad pob dyn ag sydd yn gwybod dim am hanes y byd. Nis gall y plentyn ar y ddaear weled mawredd, gogoniant, ac eithafoedd gallu a daioni a doethineb ei Dad Nefol, heb deimlo ei galon yn boddi o gariad a pharch tuag atto, a'i fynwes ar yr un pryd yn cael ei gorlenwi gan hyder a pherffaith ymddiried yn ei holl drefniadau. Nis gall na ffydd na chariad, nac un rhinwedd Cristionogol arall fodoli ond lle y mae gwybodaeth. Nac ofnwch wybodaeth ynte, canlynwch ei goleuni i ba le bynag y dichon iddo eich arwain. Y fraint uchaf a all y Tad yn ei anfeidrol gariad roddi i'w blant, yw *gwybodaeth*. Gelynion *dynoliaeth* yw gelynion *gwybodaeth*. Yn hyn y mae y grefydd Gristionogol yn rhagori ar holl grefyddau'r byd; sef, ei bod yn *cefnogi gwybodaeth hyd yr eithaf*. Ni welir dim o'i thrysorau ond yn y goleuni! Am hynny, "hyn wyf yn ei weddio, ar amlhau o'ch cariad chwi etto fwyfwy trwy wybodaeth a phob synwyr—er gogoniant a moliant i Dduw."

SYLWADAU AR DDAU GYHUDDIAD A DDYGIR YMLAEN YN ERBYN YR UNDODIAID:

Sef nad ydynt yn credu yn y Messiah, ac am eu bod yn arferyd eu rheswm mewn crefydd, ac yn gosod gormod o bwys arno.

(*Parhad o tudal.* 251.)

Awn rhag ein blaen, bellach, at yr ail gyhuddiad a ddygir yn gyffredin yn erbyn Undodiaid; sef, ein bod yn arferyd ein rheswm mewn crefydd, ac yn gosod gormod o bwys arno. I'r cyhuddiad hwn bydd ein hateb yn ddaublyg: sef, 1, Nad ydym yn arferyd ein rheswm mewn crefydd ond lle y dylem wneyd hyny, a dim yn mhellach nag sydd yn angenrheidiol. Ac 2, Bod ein cyhuddwyr hefyd, i raddau mwy neu lai, yn gwneud yr un peth; neu, o'r hyn lleiaf, yn cydnabod ac yn acto ar yr egwyddor; ac ar y cyfan, nad ydynt yn condemnio nac yn gwrthod arferyd eu rheswm mewn crefydd, ond pan y ceir fod rheswm yn milwrio yn erbyn eu tybiau, neu eu cyfundraeth hwy. Hynyna fydd ein hamcan i ddangos mewn ychydig sylwadau byrion a sathredig. Os gallwn ddangos fod ein cyhuddwyr felly yn anghyson â hwy eu hunain, o ganlyniad, mewn pob tegwch a chyfiawnder, bydd eu cyhuddiad i syrthio i'r llawr.

Ond i fyned at y pwnc :—Yr ydym ni yn dal fod gwaith neu swydd rheswm, mewn perthynas â dadguddiad, yn cynnwys y tri pheth canlynol : sef, 1, I chwilio a barnu am y profion a roddir o wirionedd dadguddiad ; neu, mewn geiriau eraill, er cael allan pa un ai ydyw y dadguddiad sydd yn yr Ysgrythyr yn meddu ar y nodau sier o wirionedd a tharddiad dwyfol. 2, I chwilio a barnu, er cael allan pa rai yw y gwirioneddau sydd wedi cael eu dadguddio neu eu dysgu yn yr Ysgrythyr. Ac yn 3edd, i gydmaru y gwirioneddau â'u gilydd ac i'w cyflëu at ein profiad a'n hangenion mewn bywyd a'n dysgwyliadau yn ol llaw.

Ein hamcan yw dangos ei bod yn ofynol ac yn angenrheidiol i ni arferyd ein rheswn yn y tri pheth a enwyd : ac, ar yr un pryd i ddangos, mewn geiriau byrion, fod ein cyhuddwyr, mwy neu lai yn gwneud yr un peth, ac mewn ymddygiad, os nid mewn proffes, yn cymmeradwyo yr egwyddor o'r hyn lleiaf.

Ond cyn myned ymlaen ymhellach, er mwyn cael deall ein gilydd, ni fyddai maes o le i ymofyn, Beth y'm ni yn feddwl wrth *reswm* mewn perthynas a *dadguddiad ?* Onid rheswm yw y gynneddf ag y mae Duw wedi ei roddi i dynolryw er eu galluogi i wahaniaethu rhwng y drwg a'r da—rhwng y gwir a'r gau. Ac os dyma feddylir, amlwg yw mai rhodd oddiwrth y Crëwr Mawr yw rheswm—rhodd werthfawr, a dylem nid yn unig deimlo yn ddiolchgar am dani, ond hefyd ei defnyddio hyd eithaf ein gallu, yn lle ei distadlu mewn unrhyw fodd. Galwer yn "rheswm *dynol*" os mynir. Nid yw hyny wedi'r cyfan ddim yn llawer o ddiraddiad, eithr yn hytrach mae bod y peth yn *ddynol*—yn perthyn i ddynoliaeth—ac wedi ei roddi at ddybenion mawr a daionus i holl blant dynion, yn dangos ei werth a'i ddefnyddioldeb i'r graddau pellaf. Ar yr un pryd y mae fod ein rheswm yn "ddynol," ac o ganlyniad yn ffaeledig, yn amherffaith, ac yn agored i gyfeiliorni, yn addysg ac yn rhybudd i ni arferyd ein rheswm, gyda chrefydd yn enwedig, yn bwyllog, yn ofalus, ac yn ostyngedig. A gobeithio nad ydym yn myned yn rhy bell, pan yn dywedyd fod ein cyhuddwyr yn ymddangos yn anystyriol ac yn fyrbwyll neillduol yn eu gwaith yn beio ar Undodiaid am arferyd eu rheswm mewn crefydd ; ac hefyd y dylent bwyllo cyn dwyn ymlaen y cyhuddiad, ein bod yn gosod *gormod* o bwys ar reswm. Dylent wybod ac ystyried mai nid yn unig dawn neu rodd Duw yw ein rheswm, ond hefyd mai dyma'r ddawn neu'r gallu sydd yn cymhwyso dyn at ymwneud â chrefydd ac i dderbyn dadguddiad. Heb y ddawn hon—heb reswm—ni fuasai dadguddiad o ddim gwerth i ni.

Y mae ein cyhuddwyr yn gwybod, neu o'r hyn lleiaf y mae y rhai deallus yn eu plith yn gwybod yn dda, fod yr Undodiaid, gystal a hwythau, yn proffesu eu bod yn derbyn ac yn credu y dadguddiad dwyfol a roddir yn y Bibl. Yn credu fod goleuni rheswm a goleuni dadguddiad, ill dau, yn dyfod oddiwrth Dduw'r gwirionedd, yr ydym yn rhwym o gredu nas gall y naill fod yn groes i'r llall, ac yn ganlynol nas gall fod athrawiaethau yr Ysgrythyr, a'u deall yn iawn, ddim bod yn groes i'r hyn y mae rheswm naturiol yn ei ddysgu. Ac hefyd, y mae yr ysgrythyrau eu hunain yn ein hanog i arferyd ein rheswm mewn crefydd. "Deuwch yr awrhon," medd Duw trwy'r Proffwyd, "ac *ymresymwn.*" "Paham," medd Crist, "ïe, o honoch eich hunain, nad ydych yn barnu yr hyn sydd gyfiawn ?" Ac medd Paul, "Profwch bob peth, a deliwch yr hyn sydd da." Awn rhag ein blaen i ddangos fod ein cyhuddwyr eu hunain yn cydnabod, ac yn rhwym o

gydnabod yr egwyddor; neu, yr hyn lleiaf, eu bod yn arferyd eu rheswm mewn crefydd mor belled ag y maint yn cael nad ydyw yn milwrio yn erbyn eu tybiau neillduol.

Yr ydym ni yn dal ein bod yn rhwym o arferyd ein rheswm er penderfynu y cwestiwn pwysig pa un ai derbyniwn yr Ysgrythyrau ai peidio fel dadguddiad dwyfol, neu ynte a ydynt yn rhoddi hanes wirioneddus ac yn cynnwys dadguddiad oddiwrth Dduw. A chwedi eu derbyn fel y cyfryw, os oes genym resymau digonol dros hyny, y mae yn ofynol i ni arferyd ein rheswm er cael allan a deall beth maent yn ei ddysgu. Y mae yn sicr nad yw Rheswm ac Ysgrythyr yn gwrthryfela yn erbyn eu gilydd. Na, y maent wedi tarddu o'r un ffynon wreiddiol; ac os tafiwn reswm dros y bwrdd, y mae yn llawn bryd gosod yr Ysgrythyr o'r neilldu. Y maent o werth a defnydd mawr gyda'u gilydd. Ni fyddai yr Ysgrythyr o ddim gwerth na defnydd i greaduriaid direswm.

Yn y lle cyntaf, rheswm yw y cyfrwng drwy yr hwn ydym yn cael ein galluogi i wahaniaethu yr hyn sydd ffugiol oddiwrth yr hyn sydd sylweddol; yr hyn sydd debygol oddiwrth yr hyn sydd annhebygol; a pha beth ydym i gredu yn nghystal a'r hyn ydym i annghredu. Yn awr y mae y Testament Newydd wedi cael ei roddi i ni bid sicr i'r diben i'w ddarllen a deall ei gynwysiad ac i ymarweddu yn unol a'r rheolau plaen ac eglur sydd ar lawr ynddo. Ac y mae yr un mor sicr a hyny nad oes modd penderfynu pa un ai ydyw yn wirionedd ai nid yw, heb arferyd ein rheswm.

Pe buasem yn rhwym o dderbyn y Testament Newydd, yn unig oherwydd ei fod yn cael ei osod o'n blaen, ac oherwydd y dywedir wrthym mai llyfr da a llyfr oddiwrth Dduw ydyw; buasai y Mahometaniaid dan yr un rhwymau yn gymwys i dderbyn y *Koran*, oherwydd ei fod yn cael ei osod o'u blaen, ac y dywedir wrthynt mai llyfr da a llyfr oddiwrth Dduw ydyw. Cyn, gan hyny, y gallwn farnu pa un ai ydyw yn lyfr da ac oddiwrth Dduw ai nid yw, rhaid i ni ei ddarllen a myfyrio arno, fel y byddom trwy hyny yn alluog i ddyfod i foddlonrwydd a phenderfyniad pa un ai ydyw felly mewn gwirionedd. Ond sut y mae gwneud hyny? Amlwg yw mai trwy arferyd y rheswm hyny y mae Duw wedi ein cynnysgaeddu ag ef, i'r diben i ni chwilio ac adnabod nodau anffaeledig gwirionedd. Meddyliwn fod rhyw ddyn yn derbyn y Testament Newydd fel dadguddiad dwyfol; a chwedi hyny fod dyn arall yn gofyn iddo, paham y mae yn ei dderbyn fel y cyfryw? Beth fuasai yn dweud mewn attebiad? Diambeuol yw y buasai yn rhoddi ei *resymau* dros hyny. Buasai yn lled debyg o ddweud fod yr hanesion sydd ar lawr ynddo yn rhai natturiol, ac yn dwyn nodau o wirionedd, a hyny mewn cydmariaeth âg hanesion eraill sydd yn adrodd ffeithiau nad oes un ammheuaeth yn eu cylch. Ond nis gellir cydmaru un hanes âg hanesion eraill, heb arferyd ein rheswm. Iê, dyna ydyw swydd rheswm. Ac y mae y casgliadau neu y gwersi y mae yn dynu oddiwrth y naill ynghystal a'r llall, yn rhoddi prawf pa un ai ydyw yn arferyd ei reswm yn briodol ai nid yw. Etto y mae y dyn yn barod i ddweud nad yw yn beth tebygol na rhesymol chwaith i feddwl y buasai yr Apostolion ac eraill o'r Crist'nogion cyntefig yn aberthu eu holl gyssuron, ac hyd y nod eu bywydau, er ymddiffyn a thaenu anwiredd yn y byd. Rhaid y gwyddent hwy yn ddigon da pa un ai gwirionedd ai peidio oeddent hwy yn tystiolaethu iddo. Paham y mae yn tynu y fath gasgliad? Diammheuol mai oherwydd ei fod yn arferyd ei *reswm*. Wel ynte, cyn y gallwn gredu oddiar argyhoeddiad mai gair y

bywyd tragwyddol yw athrawiaeth ein Harglwydd Iesu Grist, amlwg yw fod yn rhaid i ni arferyd ein rheswm.

Yn yr ail le. Y mae yn rhaid i ni arferyd ein rheswm hefyd er cael allan a deall pa beth y mae y Bibl yn ddysgu. Y mae pob sect braidd yn cydnabod ac yn gwneuthur hyny, hyd y nod y cyfryw hyny sydd yn diarddelwi reswm fwyaf. Maent yn ei arferyd hyd nes byddo yn gwasgu neu yn croesi rhai o'u hathrawiaethau neilldnol; dyna pryd y maent am daflu rheswm dros y bwrdd.

Y mae hyd y nod y Pabyddion yn ei arferyd. Pan y maent, er esiampl, yn darllen y dernyn hwnw yn y Testament Newydd lle mae'r Iesu yn galw ei hunan yn "winwydden," maent yn arferyd eu rheswm mor bell ag i wrthod y gwrthyni noeth o gymeryd y geiriau mewn ystyr lythyrenol. Onite buasai yn rhaid iddynt gredu mai gwinwydden lythyrenol oedd y Messiah—nad dyn eithr pren oedd yn llefaru—fod yr Iesu wedi cael ei blannu a bod ganddo wreiddiau yn y ddaear, a changhenau yn yr awyr. Na, nid ynt yn cynnyg dweud peth sydd mor wrthun â hyny; a'r un rheswm sydd ganddynt hwy a ninau i roddi dros beidio derbyn a chredu y frawddeg yn yr ystyr lythyrenol; sef, y byddai hyny yn groes i synwyr naturiol, neu yn groes i reswm. Ond etto pan y maent yn darllen y geiriau hyny lle y mae Crist yn dweud, "Hwn yw fy nghorph," y maent yn nacau arferyd eu rheswm, ac yn haeru y dylai y frawddeg gael ei derbyn a'i chredu yn llythyrenol. Felly yr ydym yn gweled eu bod yn arferyd eu rheswm er dehongli y frawddeg gyntaf ac yn nacau gwneuthur hyny mewn perthynas i'r olaf. A dywedwn ni, Brotestaniaid, eu bod yn hyny yn annghyson â hwy eu hunain. Y mae ein brodyr Trindodaidd drachefn yn gwneuthur yr un peth yn gymwys, mewn perthynas i adnodau eraill, er eu bod yn barod i gondemnio y Pabyddion. Er enghraifft, yr ydym yn cael fod yr Iesu yn dweud fel y canlyn yn Efengyl Ioan, sef, "Myfi a'r Tad un ydym." Yn awr y mae y Trindodwr yn haeru y dylai y testun uchod gael ei esponio yn llythyrenol; a bod yn rhaid i ni ei gymeryd fel y mae ar lawr, a chredu mai un *bod* ac nid dau fod gwahanol yw Duw a Christ. A phe gofynwn i'r Trindodwr pa fodd y gall dau fod, fod yn un mewn ystyr lythyrenol, y mae yn barod i atteb, er symud ymaith yr anhawsdra, yn y drefn ganlynol, sef, nad yw yn cymeryd arno i'w esponio: mai dirgelwch ydyw sydd rhaid ei dderbyn, ac ei bod yn rhaid i ni ei gredu er ei fod yn hollo groes i reswm ac yn groes i bob meddwl a allwn gael am Grist a'r Tad. Ar yr un pryd ni chaniatâ y Trindodwr i'r Pabyddion wneud yr un esgus er ffafrio yr athrawiaeth o draws-sylweddiad. O ganlyniad gellir dywedyd fod y ddwy blaid yn sefyll ar yr un tir yn gymhwys yn hyn o beth, o'r hyn lleiaf; tra yr ydym ninau ar y llaw arall yn honni fod yn rhaid i ni arferyd ein rheswm, er deall meddwl yr Iesu yn yr adnodau dan sylw, ynghystal a'r lleill. Yr ydym yn chwilio i mewn er cael deall a gweled pa un ai ydyw yr un ysgrifenydd, neu yn hytrach llefarwr, yn arferyd yr un gair mewn manau ereill lle na feddylir dim am y fath undeb sylweddol neu lythyrenol. Yn y 17eg benod o'r un Efengyl, yr ydym yn cael fod ein Hiachawdwr yn gweddio dros ei ddysgyblion fel hyn:—"Fel y byddont oll yn un," ac yna y mae yn myned rhag ei flaen trwy ddweud yn *mha ystyr* yr oeddent yn un, sef, yn yr un ystyr yn gymhwys ag oedd Ef a'r Tad yn un. "Fel y byddont un, megis yr ydym ni yn un."

Os ydym i gasglu fod yr adnod sydd yn dweud "Myfi a'r Tad un ydym," yn

profi fod yr Iesu a'r Tad yn un mewn hanfod, ac ym mhob ystyr, amlwg yw y gellid profi ar yr un tir yn gymhwys nad oedd y Tad a Christ a'r disgyblion oll, ddim ond un bod. Etto i gyd, nichaniatâ ein brodyr Trindodaidd fod yr esponiad yna yn un rhesymol. Yn y matter dan sylw, ynte, yr unig wahaniaeth sydd rhwng yr Undodwr a'i gyd-gristionogion yw, ei fod ef yn proffesu arferyd ei reswm i ddeongli ac esponio yr holl Ysgrythyrau, tra nad yw y Trindodwr yn ei arferyd i ddeongli ac esponio ond rhai darnau o honynt. Fel y dangoswyd yn barod ni fuasai y dadguddiad dwyfol o un gwerth, heb i ni arferyd ein rheswm; heb wneud hyny ni allasem wybod beth sydd wedi ei ddatguddio, a pheth nad yw wedi ei ddatguddio; na pha beth sydd i'w ddeall mewn ystyr ffigurol ac nid yn llythyrenol. Ond wedi'r cyfan y mae rhai yn barod i ddweud am danom, ein bod yn gosod ein rheswm uwchlaw ac yn ei brisio yn fwy na'r Ysgrythyrau; ac yr ydym ninau yn gwadu hyny yn bendant, oblegid yr ydym yn credu nad yw'r Ysgrythyrau, a'u deall yn iawn, yn dysgu dim ond yr hyn sydd yn rhesymol, ac hefyd yr ydym yn rhoddi y blaenoriaeth o ddigon i'r Ysgrythyrau, am eu bod yn dysgu yn fwy eglur ac yn mhellach, a chyda sicrwydd am wirioneddau sydd o'r pwys mwyaf. Y mae yn eithaf gwir fod rheswm wedi yngan i rai o'n cyndadau rywbeth am fyd tu draw i'r byd hwn a'r bedd; ond y mae y gair dwyfol yn gwirio hyny. Ydyw: y mae'r Iesu trwy ei adgyfodiad oddiwrth y meirw wedi rhoddi prawf anwrthwynebol y cawn ninau ein cyfodi yn yr un modd. Ar yr un pryd y mae yn rhaid i ni arferyd ein rheswm cyn byth y gallwn gael argyhoeddiad trwyadl yn y dyn oddimewn fod Crist wedi rhoddi y fath sicrwydd i ni; neu ynte ei fod ef mewn gwirionedd wedi cael ei adgyfodi oddiwrth y meirw fel prawf o'n adgyfodiad ninau.

Mae ein cyhuddwyr eu hunain yn cydnabod mai ein rheswm yn unig sydd yn ein galluogi i wahaniaethu rhwng yr hyn sydd ffugiol â'r hyn sydd wirioned. Beth yw pob llyfr a thraethawd sydd wedi cael ei ysgrifenu erioed ar y profion sydd o blaid Cristionogaeth, yn amgen nag adroddiad o'r rhesymau hyny sydd genym dros gredu ac ymdiffyn y ffeithiau hyny ag ydynt yn sail i'n ffydd yn y Bibl? Y mae ein cyhuddwyr etto yn anghyson â hwy eu hunain, pan y'n beiant ac y'n condemniant am arferyd ein rheswm i gydmaru yr Ysgrythyrau á'u gilydd, er cael allan a chydmaru eu gwirioneddau a'u gilydd a'u cysondeb â hwynt eu hunain ac a gwirioneddau adnabyddus.

Beth yw pob Cyffes Ffydd, beth yw pob Corph o Dduwinyddiaeth, beth yw y traethodi, a'r pregethu, &c., yn amgen nag ymdrech i wneuthur hyny mor belled ag a caniatteir hyny o fewn terfynau cyfyngedig y gyfundraeth a fabwysiadir. Ond cofier mai nid Duw'r gwirionedd, ond dynion ffaeledig, sydd yn gwahardd yr arferiad o'n rheswm tuhwnt i'r terfyn hyn neu y terfyn arall. Am ddirgeledigaethau, pethau cuddiedig ydynt; nid y'nt yn wrthrychau gwybodaeth, nac ychwaith yn wrthrychau ffydd. Gadawer hwy lle y maent, hyd nes gwelo Duw yn dda i'w dadguddio i ni. Ond bydded i ni fyned ymlaen yn galonog, yn ein ymchwiliadau a'n myfyrdodau ar weithredoedd ac ar ddadguddiad Duw, fel y byddom trwy hyny i gael ein gwneuthur yn well ac yn ddoethach o ddydd i ddydd, ac yn y pendraw yn gymwys ac yn addas i fyned i'r trigfanau hyny, lle y cawn weled yn amlwg nad yw ein Tad wedi ein donio â rheswm i ddibenion ofer. Rhaid gadael ar hyn.

Cwmbach, Medi, 1861. E. W. L.

ESIAMPL O EWYLLYS DA.

Ennillodd Michael Schappach, meddyg Swissaidd o'r ganrif diweddaf, gymmaint o enwogrwydd trwy ei fedr neillduol i wella clefydau, fel yr oedd yn aml yn cael ei ymweled gan ddynesau o sefyllfa uchel yn y byd. Un tro yr oedd yn ymgynulledig yn *shop* Schappach lawer o ddynion uchelradd o bob parth o'r byd, rhai wedi dyfod i ymgynghori ag ef, ac eraill er mwyn cywreinrwydd. Yn eu plith yr oedd yno lawer o foneddigesau a boneddigion o Ffrainge, tywysog o Rwssia ynghyd â'i ferch, yr hon oedd o harddwch neillduol. Yr oedd yno *Marquis* Ffrengig ieuanc, yr hwn oedd yn ymdrechu, er mwyn difyrru y boneddigesau, i osod allan ei *wit* ar gost y meddyg. Yn ystod yr ymddiddan daeth hen wladwr i mewn, cymmydog i Schappach, wedi ei ddilladu yn dlawd, a'i farf mor wyn a'r eira. Trôdd Schappach ymaith yn union oddiwrth y cwmpeini anrhydeddus yma i barotoi y feddyginiaeth angenrheidiol i wraig ei gymmydog, heb dalu fawr sylw i'r bobl fawr yma, gan nad oedd yn ystyried fod eu neges nhwy mor bwysig. Ar ol cael ei amddifadu o un pwngc, trôdd y *Marquis* ei gellwair ar y gwr tlawd, yr hwn oedd yn aros am ei feddyginiaeth. Wedi gwneuthur llawer o sylwadau delffaidd ar ei farf wèn hir, cynnygiodd wneud *wager* o ddeuddeg *louis d'or* na fuasai neb o'r boneddigesau yn rhoddi cusan i'r hen ddyn brwnt. Gwnaeth y dywysoges Rwssiaidd amnaid ar ei gwas, yr hwn ddaeth a phlât iddi. Gosododd y dywysoges ddeuddeg *louis d'or* arno, ac aeth ag ef at y *Marquis*, yr hwn, wrth reswm, ni allai lai na gosod deuddeg arall arno. Yna aeth y Rwssiad deg i fynu at yr hen wladwr a'r farf hir, a dywedodd, "Caniatewch i mi, hybarch dad, i'ch cyfarch yn ol dull fy ngwlad i." A chan ddywedyd hyn, hi a osododd ei breichiau am ei wddf, a chusanodd ef. Wedi hyny, gwnaeth rôdd iddo o'r aur ar y plât, a dywedodd y geiriau hyn, "Derbyn y rhai hyn fel coffâd am danaf fi, ac fel arwydd fod merched Rwssia yn ei ystyried yn ddyledswydd arnynt i anrhydeddu henaint."—*Starling's Noble Deeds of Women.*

BOD TUHWNT I GYRHAEDD CENFIGEN.

Y mae'r gwir Gristion mewn cyflwr dedwydd iawn, oblegid ni chenfigenna neb yn ei erbyn, ac nis gall efe fagu cenfigen yn erbyn neb. Nis gall neb genfigennu yn ei erbyn ef, oblegid y mae yn ammhossibl i'r byd i wybod pa mor ddedwydd ydyw—pa mor ddedwydd yn ffafr Duw,—pa mor ddedwydd ym mwynhad y ffafr hwnw. Nid yw'r pleserau dirgel hynny y mae yn gael ym mhresenoldeb Duw—y gwystlau cysurus hynny o gariad a'r cyd-gyfnewidiadau o ddyddordeb bendigaid sydd yn passio rhyngddynt—ddim i galonau bydol i'w hamgyffred; ac ni chenfigenna neb am ddedwyddwch nas gŵyr am dano. Ar y llaw arall, nis gall efe genfigennu yn erbyn ffafr ddyn mwyaf y byd tan y nefoedd; oblegid gŵyr yn dda pa mor wammal ac ansicr ydyw dedwyddwch y dyn hwnnw. Y mae yn ei weled yn rhodio ar yr iâ, ac yn gweled ei draed yn llithro, ac yn bygwth cwympad, ac yn clywed y palmant brau yn cracio tano ar bob cam, ac yn barod i roddi ffordd i'w lyncu i fynu; ac ar yr un pryd, y mae yn gweled, hyd yn oed pe gallasai y pleserau hynny fod yn barhaus a sefydlog, mor dlawd ac anfoddlonol ydynt, ac mor llwyr analluog ydynt i ddwyn gwir foddlonrwydd i'r enaid.—*Bishop Hall.*

Eglwysyddiaeth.

LLYTHYR XI.

Sylwadau ar Llythyr IV. Mr. Jones.

Cywir Darlleniad 1 *Tim.* iii. 16.

Mr. Gol.,—Rhoddaf feddyliau rhai esbonwyr ar y gair angylion yn yr adnod hon, ac ychwanegaf rai sylwadau ar ranau eraill o lythyr olaf Mr. Jones.

Macknight, Trinodwr dysgedig iawn —"Dylit ymddwyn yn briodol yn yr eglwys; oblegid y mae'r *athrawiaeth a gedwir yno yn ddiddadl (confessedly) y mwyaf pwysig;* sef, i Fab Duw, er mwyn achub pechaduriaid trwy ei farwolaeth, ymddangos yn y cnawd; gael ei gyfiawnhau trwy yr Yspryd, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw; ei weled ar ol ei adgyfodiad gan yr Apostolion, ei genhadon; ei bregethu i'r cenhedloedd fel eu Hiachawdwr; a gredwyd iddo yn amrywiol ranau o'r byd; a gymmerwyd i fynu i'r nefoedd mewn modd gogoneddus." Yn ei *note* y mae yr un gwr dysgedig yn ychwanegu.

"4, A welwyd gan angylion]—hyny yw, yr Apostolion, a'r cenhadon eraill a gawsant eu penodi i gyhoeddi ac ardystio ei adgyfodiad ef i'r byd; a'r rhai a elwir yma (angylion) cenhadon, am yr un rheswm ag y mae Ioan Fedyddiwr yn cael ei alw felly yn Luc vii, 27, "Hwn yw efe am yr hwn yr ysgrifenwyd, Wele, yr wyf yn anfon (fy angel) fy nghennad o flaen dy wyneb." Gwel hefyd Luc ix. 52, lle y mae y cenhadau a anfonodd Iesu o'i flaen i dref y Samariaid, yn cael eu galw yn angylion, heb y fannod fel y mae yn yr adnod hon. Er hyny nid wyf wedi baeddio newid y cyfieithiad cyffredin, oblegid ni allaf ddywedyd pa un a oedd yr Apostol, ai peidio, yn golygu yr angylion hynny, y rhai yn amser ei weinidogaeth ef, a welsant Fab Duw wedi ymddangos yn y cnawd; y rhai hynny hefyd a'i gwelsant ef, ar ol ei adgyfodiad, wedi ymddangos yn yr un modd." Macknight's Apostolical Epistl. in loc. Felly y mae Macknight yn esbonio'r gair angylion yr un fath a minnau.

Belsham—"Iesu o Nazareth, dyn ymhob ystyr fel ei frodyr, yr hwn a ymddangosodd mewn dull isel yn amser ei weinidogaeth bersonol, a'r hwn a ddioddefodd angeu gwaradwyddus, a gyfiawnhaodd ei hawl i genadwri ddwyfol trwy y gwyrthiau a wnaeth, ac yn neilldiol trwy ei adgyfodiad oddiwrth y meirw. O'r digwyddiad cyffrous hwn y mae genym y dystiolaeth fwyaf eglur; oblegid dangosodd ei hun yn fyw ar ol ei ddioddefaint, i'r Apostolion, y rhai a ddewisodd i fod yn dystion o'r ffaith bwysig hon, ac i fod yn genhadon iddo i gyhoeddi'r Efengyl trwy'r byd; ac ymhlith eraill ymddangosodd hyd yn oed i minnau." Mewn *note* y mae'n ychwanegu,

"5, A ymddangosodd i'w genhadon]—'A welwyd hyd yn oed gan genhadon,' Wakefield, h. y., ymddangosodd i'w Apostolion, i'r rhai a bennododd ef i fod yn dystion o'i adgyfodiad a chyhoeddwyr ei Efengyl. Y mae hwn yn arwyddocad eglur a phwysig iawn, yn hollol addas i'r cyssylltiad. Iddo gael ei weled gan angylion, neu ysprydion y nef, braidd y mae'n ddealladwy, ac ar y goreu y mae'n amherthynasol." Epist. of Paul: in loc.

Dr. Priestley—"Y mae'r gair a gyfieithwn yn angylion, hefyd yn arwyddoccau cenhadon; ac y mae gan hynny yn debygol i'w ddeall am yr Apostolion, gan y rhai y gwelwyd ein Harglwydd ar ol ei adgyfodiad, a'r rhai oedd ei genhadon ef i bregethu ei athrawiaeth ef i'r byd. Neu gall y cyfeiriad fod at yr angylion hynny oedd yn gwilied wrth fedd Crist (Luc xxiv. 6), a'r rhai a fynegasant i'r gwragedd ei fod wedi cytodi o feirw." *Notes on Scriptures, vol.* xiv. *pp.* 133—4. *Ed. Rutt.* Dyma hefyd yw barn y dysgedig Dr. John Jones, a hynny yn yr un llythyr, ac ar yr un tudalen, ag y mae dyfyniad Mr. J., sef y dernyn nesaf o'i flaen, fel y gwelwyd eisoes. Yr wyf yn sylwi ymhellach fod yr adnod yn rhwydd ac esmwyth ar y dyb mai cenhadon Crist, neu ei Apostolion a'r tystion eraill, sydd i'w ddeall wrth yr angylion yma. 1. Y maent yn gweled yr Iesu ar ol ei adgyfodiad, ac yn nhywalltiad yr

Yspryd, yn cael prawf mai cenhadwri ddwyfol oedd gan Iesu. 2. Yr oedd yn natturiol i'r rhai oeddent wedi gweled y pethau hyn ddwyn eu tystiolaeth i'r gwirionedd, a'i bregethu i'r cenhedloedd. 3. Yr effaith naturiol oedd i'r Efengyl a thystiolaeth tystion Iesu o'i adgyfodiad ef gael ei chredu a'i derbyn yn y byd. 4. Er nid yn hollol yn ol trefn amser, oherwydd cafodd Crist ei ddyrchafu cyn cael ei bregethu i'r cenhedloedd; ond efallai fod yr Apostol yma, fel mewn rhai manau eraill, yn cadw'r peth mwyaf ei bwys hyd y diwedd; dyrchafwyd yr Iesu i ogoniant. Neu fel y mae llawer o esbonwyr yn meddwl, darfu i'r athrawiaeth hon gael derbyniad gogoneddus yn y byd. Y mae Grotius, Crellius, Goadby, Schlitingius, Lardner, ac eraill o'r dyb hon. Dywed Lardner fel hyn, "Yn diweddaf, A gymerwyd i fynu i ogoniant. Os deallir hyn am 'ddirgelwch duwioldeb,' neu athrawiaeth yr efengyl, y meddwl yw, iddo gael ei dyrchafu yn ogoneddus: yn a thrwy hynny i wybodaeth o Dduw gael ei thaenu dros y byd, mwy na thrwy reswm yn unig, nac un datguddiad blaenorol: ac fod ganddi effaith a dylanwad mwy grymus nag un athrawiaeth arall pa bynnag, i oleuo, sancteiddio, ac achub dynion." *Lardner's Works, qto Vol.* v. *p.* 251. Bellach ni a adawn y dyfyrwch a wnaeth Mr. J. o'r angylion neu'r cenhadon apostolaidd, gan ychwanegu yn unig, nad wyf yn gweled un achos addef un camsynied yma, onide gwnaethwn hyny gyda'r parodrwydd mwyaf.

Mewn perthynas i farn y *dysgedig* Dr. J. Jones, y mae digon wedi ei ddywedyd eisioes i ddangos nad yw beirniadaeth Dr. Jones ddim yn iawn; a chyda golwg ar ei haeriad nad yw *hos ephanerothe* ddim yn Roeg da na synwyr da, gellid ychwanegu at dystiolaeth Griesbach a Scholz sydd eisioes o flaen y cyhoedd, yr hyn a ddywed dau neu dri arall. Dywed Ellicott—"Ar ol dywedyd nad yw *hos* yn *emphatic* nac yn cynnwys y *demonstrative* a'r *relative;* nac arbenig, *ecce, est qui*, "Ond *relative* ydyw, eb efe, i *antecedent* wedi ei adael allan, ond a ellir yn rhwydd ei adnabod, sef Crist: felly De Wette." *Pastoral Epistles, p.* 50. Dywed Dr. Davidson, "Ni allwn ddim gan hynny weled un gwrthddadl safadwy i'w gyfleithu *efe yr hwn.* Y mae'n Roeg da, a synwyr da, ac nid oes dim ystyriaethau mewnol yn ei erbyn." *Pibl. Crit. p.* 846. Y mae Wiesinger, yn ei barhad o esboniad Olshausen yn dywedyd, "Y mae pwys y dystiolaeth allanol o ochr y darlleniad *hos*, o blaid yr hwn y mae Griesbach, Lachman, Tischendorff, De Wette, Matthies, ac Olshausen wedi penderfynu; tra y mae *Theos* wedi cael ei amddiffyn gan Matthai, Heindenreich, Leo, Mack, ac eraill. * * * Y mae yr hyn, modd bynnag, a ddywedir fod fwyaf dros y darlleniad hwn [*Theos*] yn ymddangos yn hytrach yn ei erbyn. Oherwydd os *Theos* oedd y darlleniad gwreiddiol, yna y mae tarddiad y darlleniadau anhawdd eraill yn llawn mor anghyfrifadwy, ag ydyw tarddiad *Theos* fel *marginal gloss*, ar y llaw arall, yn hawdd cyfrif am dano ar y dyb mai *hos* oedd y darlleniad gwreiddiol. Pa fodd y gellir dychymygu y gwnai neb, yn lle y darlleniad penderfynol *Theos*, osod *hos*, yr hwn, heb un cyfeiriad penderfynol a arferid mewn dull mor hynod yma? * * * Ac y mae'n beth hynod, *os Theos* oedd yn wir y darlleniad cywir, na wnawd un defnydd o'r dernyn hwn yn y dadleuon a'r Ariaid ac ar ol hynny. Ond y mae cynwysiad gwahanol ranau yr adnod, 'a gyfiawnhawyd yn yr Yspryd, a welwyd gan angylion, a bregethwyd ymhlith y cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, a gymerwyd i fynu i ogoniant', (fel y mae eraill, a'r diweddaf i gyd De Wette, wedi sylwi) yn anghysson a'r *subject Theos.* Oherwydd pan y mae Heindenreich yn sylwi mewn atteb i hyn, na ddylid cyfeirio y rhanau hyn at *Theos* wrth ei hun, ond at *Theos hos ephanerothe en sarki*, nid yw trwy hyn yn symud yr anhawsdra, ond yn hytrach yn ei addef, gan mai nid *Theos* a ymddangosodd yn y cnawd yw'r *subject*, ond y mae yr holl ranau, heb gau allan y cyntaf, yn cyfeirio at y *Theos.* Yn ganlynol yr ydym wrth ein rhyddid i honi, os y rhydd y darlleniad *hos* esboniad dealladwy, ei fod yn sicr i'w ddewis." Yna y mae Wiesinger yn myned ymlaen i esbonio *hos* am Iesu Grist, yr hyn yn ol ei farn ef, sydd yn gwneuthur synwyr da. Felly hefyd, *hos* yw'r darlleniad y mae Belsham yn gymeradwyo ac yn esbonio hefyd. Felly wele naw Trindodwr, sef Ellicott, Davidson, Wiesinger, Griesbach, Scholz, Lachman, De Wette, Matthies, Olshausen, ac un Undodwr, sef Belsham, o'r farn

fod synwyr da yn y darlleniad *hos.* Does bossibl nad yw tystiolaeth naw Trindodwr ac un Undodwr yn ddigon i orbwyso tystiolaeth y *dysgedig* Dr. John Jones, er mae Undodwr oedd. O'r hyn leiaf, gadawaf ar hyn yn awr, gan ystyried yr hyn a ddywedais yn eithaf digon, yn enwedig gan nad wyf yn cymmeradwyo y darlleniad *hos, yr hwn,* fy hunan.

Y mae Mr. J. yn myned rhagddo gan ddywedyd fod yr eglwys, *colofn,* yn urddasol, ond fod y gwirionedd sydd wedi ei ymddiried iddi yn fwy pwysig. Yna y mae'n ychwanegu, "Mae bodolaeth yr eglwys yn y byd yn brawf dimywad o wirionedd yr holl bethau hyn a nodir yn yr adnod; Duw wedi ei arddangos yn y cnawd—ei gyfiawnhau yn yr Yspryd—ei weled gan angylion—ei bregethu i'r cenhedloedd—ei gredu yn y byd—ei gymeryd i fynu drachefn i ogoniant." Rhaid yw dywedyd yma fod Mr. Jones yn gysson ag ef ei hun o leiaf. Y mae yr un *subject* wedi ei gadw ganddo i'r holl ferfau: ond pa fodd y cydsaif hyn a'i esboniad sydd eisioes wedi bod dan ein sylw nis gwn. Hawdd yw gwaeddi dirgelwch pan elo hi'n galed. Yr un modd y gwna y Pabyddion hefyd gyda'u traws-sylweddiad. Dywedant fod y ffaith wedi ei datguddio; fod Iesu wedi dywedyd yn bendant, "Oni fwyttewch gnawd Mab y Dyn, ac oni yfweh ei waed ef, nid oes ynnoch fywyd." A thrachefn, "Hwn yw fy nghorff, yr hwn a dorrir trosoch." Ac os dygir yn eu herbyn yr anhawsderau sydd ynglyn a'u golygiadau y maent yn barod yn union a'r atteb, ïe, yr un atteb a Mr. J. yn gymwys. Dirgelwch ydyw, "Ond gan fod y ffaith wedi ei datguddio, credaf hi fel dirgelwch na fedraf ei amgyffred." Peth tra amhriodol hefyd, i'm tyb i, ydyw esbonio, neu egluro unrhyw eiriau, a gorfod dywedyd wedi gorphen yr esboniad, "Dirgelwch ydyw, i'w gredu heb ei amgyffred." Ai nid gwell fyddai gadael dirgelwch yn llonydd gan nas gellir ei esbonio na'i egluro? Nid wyf yn sôn dim am y modd, ond amheu y ffaith a sonia Mr. J am dani ydwyf, nas gall hi ddim bod, oherwydd ei bod, fel y dywedais eisioes, yn gwrthdaro pob syniadau sydd gennym am Dduw; o leiaf yn ol esboniad Mr. J. o honi.

Gyda golwg ar "gadwyn" Mr. J., y mae y dorch olaf ynddi, 'Duw wedi ymddangos yn y cnawd' yn yr ystyr y mŷn Mr. J. wedi ei dryllio eisioes; a chyda golwg ar ei drydydd dorch, "Buasai maddeuant yn beth amhosibl heb iawn," rhodded eglurhad o'r hyn y mae ef yn feddwl wrth iawn, oblegid y mae llawer o wahanol farnau ynghylch hyn etto.

Er mwyn cadarnhau ei olygiadau am ymddangosiad Duw yn y cnawd, y mae Mr. J. yn dechreu gyda Ioan i. 14, "A'r gair a ddaeth yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, a ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr Unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd." Wele eich cyfeithiad chwi, "Ar gair a ddaeth yn gnawd;" ond yn y fan yr ydych yn ei adael; ni wna'r tro i bleidio eich syniadau fel yna; na, ni thâl ef oherwydd dywedwch, "Nid Ioan oedd y goleuni, ond daeth i dystiolaethu am y goleuni. Daeth y gwir oleuni, y *logos, yn y cnawd,*" Dyma fe, 'nawr; y mae'n cydweddu a'ch golygiadau yn well, ond o ble y cawsoch y fanod yna, ïe, a'r rhagddodiad, *preposition,* hefyd. Nid *sarks egeneto* ydyw hwn, nage medd eich cyfeithiad chwi eich hun. Un peth yw dyfod yn gnawd, peth arall yw dyfod yn y cnawd. Ond ewch ymlaen, "Mae y ferf *egeneto* meddwch yn arwyddo symudiad neu ddyfodiad, oddigerth fod y cyssylltiadau yn dangos yn wahanol. Felly dyna y *logos* yn dyfod yn gnawd. Yn awr, pa synwyr oedd i Ioan ddywedyd iddo ddyfod yn gnawd os mai dyna pryd y dechreuodd fodoli." Pe buasech yn gosod y gair *nid* o flaen eich brawddeg gyntaf, buasai yn fwy tebyg o sefyll, sef fel hyn, "Nid yw y ferf *egeneto* yn arwyddo symudiad neu ddyfodiad oddigerth," &c. Pan y mae'r dysgedig Schleusner yn rhoddi'r ystyr dyfod i *egeneto,* y mae'n dywedyd ei bod yn cael ei chanlyn gan rag-osodiadau *(prepositions),* neu rag-ferfau lleol. Ystyr fwyaf aml *egeneto* yw *oedd,* ac nid *daeth.* Y mae Schleusner yn rhoddi yr ystyr geni iddo mae'n wir, ond pwy sydd yn meddwl wrth glywed fod dyn yn cael ei eni i'r byd ei fod yn dyfod o ryw fyd arall i'n byd ni, neu ei fod yn rhag-hanfodi. Yn wir y mae ymadrodd o gryfach o lawer yn cael ei arfer gan Ioan i ddangos symudiad dynion i'r byd o lle arall, na'r hyn a ddywed am y *logos* yma; adn. 9, "Hwn ydoedd y gwir oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod,

(*erchomenon*) i'r byd. Y mae y gair hwnnw yn arwyddo symudiad oddigerth fod y cyssylltiad yn dangos yn wahanol; er hynny nid wyf yn deall y gellir casglu fod dynion yn rhag-hanfodi oddiwrth y geiriau hyn, er yn gryfach dros hynny o lawer na'r ymadrodd dan sylw. Darllenia'd y Syriaeg Peshito yw hwn," *ve meltho besro wo*, a'r gair oedd gnawd; y Philoxenian Syr. " *Vehaw meltho besro wo*, a'r gair hwn oedd gnawd. Yn wir, pan yn siarad am ymddangosiad Duw yn y cnawd, dylem fod yn ofalus i beidio cyssylltu dim ag ef ag a fyddo'n dangos symudiad, oddieithr mewn iaith ffigurol iawn, rhag, trwy hynny, wrthdaro'r priodoliaethau dwyfol; a chan mai ystyr gyffredin *egeneto* yw, nid dyfod ond bod, dylid ei gyfieithu â'r gair fyddo'n gwneud y synwyr goreu. Yr wyf fi yn canfod yr un meddwl yma yn gymwys ag yn 1 Tim. iii. 16. [a chymeryd y darlleniad cyffredin] sef fod Duw yn ymddangos nghnawd Iesu; hynny yw, mai gwirionedd neu ddoethineb (*logos*) Duw oedd gan yr Iesu; mai gallu, *logos*, Duw oedd yn ymddangos yng ngwyrthiau yr Iesu; neu, mewn geiriau eraill, mai dyn oedd yr hwn a ddygai genhadwri Duw i ddynion; fod Duw yn gwneuthur gwyrthiau trwy'r dyn hwn; yn groes i'r hyn a dybiai rhai am y Messiah yn nyddiau Ioan, sef, fod Iesu a'r Crist yn bersonau gwahanol; a rhai o honynt a ddalient nad oedd cnawd yr Iesu ond rhith. Ond gwir ddyn er hyny oedd yr Iesu, ac yn hwn yr oedd Duw yn amlygu ei fwriadau, ei ddoethineb, ei gariad, ei faddeugarwch, ie, a'i allu hefyd. Nid athrawiaeth ddamweiniol gan Ioan yw hon, ond y mae'n rhedeg trwy yr efengyl oll. Felly yr wyf yn ddigon boddlon i gyduno a Mr. J., pan ddywed fod *eskenosen* yn cyfeirio at waith y *Shekina*, neu y presenoldeb dwyfol yn aros yn y Tabernacl gyda meibion Israel." Yr oedd y presenoldeb dwyfol yn Nhabernacl Iesu hefyd; ond ynfydrwydd fyddai i'r Israeliaid gynt feddwl fod eu Tabernacl hwy gynt yn Dduw, serch fod presenoldeb Duw yno. Felly yr oedd Duw yn yr Iesu, ond nid oedd yr Iesu yn Dduw serch hynny. Y mae Duw yn trigo yn y Cristionogion hefyd; y maent yn deml Duw; a'r hwn sydd yn caru, y mae yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau. Ond mae'r ffaith yn deilwng o sylw, mai'r Tad oedd yn aros yn yr Iesu, ac nid yr ail berson yn y Drindod, nid Duw Fab. Dyna lle mae y gwahaniaeth mawr Mr. J. rhyngom ni a chwi, a rhwng yr Ysgrythyr a chwi hefyd. Y mae Efengyl Ioan yn fwy llawn nag un arall o'r meddwl hwn, sef mai'r Tad oedd yn aros yn yr Iesu, yn gwneuthur gwyrthiau trwyddo, yn dysgu trwyddo, &c. Yr oedd y Shekina yn y Tabernacl newydd, yr Iesu, er mai dyn tlawd ei ymddangosiad oedd ef, *sarks*, dyn marwol, agored i gystuddiau, gofidiau, ac angeu fel eraill yn gymwys: er hynny yr oedd y Tad ynddo, gwirionedd Duw oedd ganddo. Ie, dyma'r athrawiaeth a gawn ni yn Efengyl Ioan drwyddi; ac mewn canlyniad y mae'n rhaid esbonio dechreuad ei efengyl yn gysson a'r efengyl hono i gyd; ac y mae yn eithaf cysson hefyd. Y mae yr unig-anedig oddiwrth y Tad yn llawn gras a gwirionedd; yn llawn o allu a gwirionedd Duw; gogoniant yr Iesu oedd y gwyrthiau oedd Duw yn wneuthur trwyddo.

Yr oedd Iesu, yn y modd mwyaf pendant, yn priodoli y cwbl i'w Dduw a'i Dad, yr hwn oedd yn aros ynddo, a'r hwn hefyd oedd yn gwneuthur y gweithredoedd. Gweler yr ymddiddan â'r wraig o Samaria, a Ioan v. 19, 22, 23; vii. 15; viii. 28, 40; x. 37, 38; xiii. 44, 45, 49, 50; xiv. 8—12; a manau eraill lle y mae yn llefaru am Ddwyfol darddiad ei athrawiaeth a'i hollol ymddibyniad ar y Tad.

Felly y mae yn amlwg fod y Shekina, y presenoldeb dwyfol yn yr Iesu, yn tabernaclu, yn aros yn yr Iesu, ond y Tad oedd hwn ac nid neb arall. Ac y mae yn amlwg hefyd beth sydd i ni ddeall wrth fod Duw yn y cnawd, sef yw hynny, fod doethineb a gallu Duw, y Tad, yn ymddangos yn yr Iesu. Gyda golwg ar 1 Ioan iv. 2, 3, "Pob yspryd a'r y sydd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, o Dduw y mae. A phob yspryd a'r nid yw yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, nid yw o Dduw." Gwadu oedd y dynion y cyfeiria Ioan attynt, nad dyn oeddCrist. Yr oedd rhai o'r Gnosticiaid yn gwadu hyn, ac at hyny y mae'n cyfeirio. Ond teg i Ioan gael esbonio ei hun. Yn y v. 1, y mae yr un meddwl yn cael ei osod allan ganddo mewn geiriau eraill fel hyn, " Pob un a'r sydd yn credu mai Iesu yw y Crist, o Dduw y ganed ef; a phob un a'r sydd yn caru yr hwn a genhedlodd,

sydd hefyd yn caru yr hwn a genhedlwyd o hono." Nid oes yma fawr o'r meddwl a dybia Mr. J., sef fod Crist yn bodoli cyn dyfod i'r byd. Aethum heibio i Philip ii. 7—9, gan nad wyf yn ei gweled i'r pwrpas oll. Gall ddyfod dan ein sylw yn ol llaw os aiff Mr. J. ymlaen a'r ddadl.

Gofynais i Mr. Jones nodi rhyw bregeth lle mae Iesu Grist yn cael ei osod allan yn Nduw. Gallesid disgwyl y buasai athrawiaeth mor aruthrol, mor newydd, mor ddieithr, mor wahanol i ddim a goleddai yr Apostolion yn flaenorol, i lanw pob pregeth, i fod uchaf ymhob cynghor. Yr oedd yr athrawiaeth o adgyfodiad y meirw, a gadarnhawyd, a sicrhawyd trwy adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw yn newydd hefyd, a mawr ei chanlyniadau, ac mewn canlyniad, y mae'n faich pregethau yr Apostolion, yn sail eu holl gysuron; ond am yr athrawiaeth o Dduwdod Crist, er i mi ofyn am ryw bregeth lle y dysgid hi, methodd Mr. J. fy nghyfeirio at un, dim cymaint ag un; ond yn lle nodi allan ryw bregeth yn ei chynwys, difynodd rai adnodau allan o *lythyrau* Paul ac Ioan. Ai pregeth yw llythyr Mr. J.? Felly gan nad yw Mr. J. yn fy nghyfeirio at un bregeth, yr wyf yn casglu oddiwrth ei ddistawrwydd nad oes un i'w chael. Mae'n wir ei fod wedi cyfeirio at Act. xx. 28, "I fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd a'i briod waed." Ond "Eglwys yr Arglwydd" y mae Griesbach yn gymeradwyo yma etto, ac nid Eglwys Dduw, ac fel yr ymddengys i mi yn iawn hefyd. Ond a gadael mai *Theou, Duw*, yw'r darlleniad, gellir cyfeithu'r geiriau fel hyn, "I fugeilio Eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd ef *a* phriod waed, ac nid *a'i* briod waed, fel y mae yn y Gymraeg. Nid oes dim yn atteb i *a'i* yn y Groeg.

Wrth derfynu yr wyf yn galw sylw Mr. J. yn neillduol at y pethau canlynol:—

1. Eich haeriad anwireddus, na fynwch er ddim ei addef yn gamsyniol, fod 150 o'r llaw-ysgrifau *henaf* yn darllen *Theos*, Duw.

2. Eich cam-gyhuddiad gwarthus yn erbyn Griesbach, ei fod wedi dyfeisio fod *pump* o ddynion wedi cyngreirio i lygru'r testun mewn dadl.

3. Eich cam-gyhuddiad o gyfeithydd y Syriaeg, ei fod yn arfer gadael y gair Duw allan.

4. At y ffaith nad yw Cyril yn dwyn dim o'r adnod hon yn erbyn Julian, yr hwn a wadai nad oedd Paul mewn un man yn galw Iesu Grist yn Dduw. Os na ellwch gyfrif am hyn, y mae hanner y ddadl yn eich erbyn; oblegid yn ofer y dygwch Cyril dros y darlleniad, na neb o'r un amser ag ef chwaith.

5. Y ffaith na ddygid yr adnod hon yn erbyn yr Ariaid a'r Nestoriaid.

6. Eich pymtheg tyst dros y darlleniad *Theos* yn y llawysgrif Alex.

7. Eich naw tyst o'r tadau Groeg.

8. Eich cam-gyfeithiad o'r ddau Syriaeg. Ynghyd ag amrywiol bethau eraill y gwelwch fy mod yn galw eich sylw neillduol attynt trwy fy llythyrau.

Ydwyf yr eiddoch, &c.,

O. Evans.

Coedycymmer.

Gwnaiff wythnos wedi ei llanw i fynu o hunanoldeb, a Sabboth wedi ei stwffio yn llawn o arferiadau crefyddol, Pharisead da, ond Cristion tlawd. Y mae llawer yn tybied mai ysbwng ydyw dydd Sul i sychu ymaith bechodau yr wythnos. Yn awr y mae allor Duw yn sefyll o Sul i Sul, ac nid ydyw'r seithfed dydd ddim mwy nag un o'r rhai eraill. Er mwyn gorphwys y mae. Y mae'r holl saith er mwyn crefydd, ac un o honynt er mwyn gorphwys.

Y mae'r hwn sydd yn anghywir yn y ddyledswydd bresennol, yn torri edefyn yn y gwŷdd, ac fe gaiff allan y diffyg, pan y byddo feallai wedi anghofio yr achos.

Y plentyn ydyw angor y fam. Nis gall hi ddim siglo ymhell o'i hangorfa. Ac etto nid yw gwir fam byth yn byw mor lleied yn yr amser presennol a phan y mae wrth ochr y cawell. Y mae ei meddyliau yn ehedeg ar ol y dyfodol y mae'n ddychymmyg i'w phlentyn. Y mae'r baban hwnw yn un o'r dewraf o long-lywyddwyr, ac y mae yn arwain meddyliau dibryder y fam i lawr trwy ymddangosfäau y blynyddau sydd etto i ddod. Ni wnaeth yr hen arch erioed fath daith ag y mae'r cawell yn ei wneud bob dydd.—H. W. Beecher.

Haursiau Cartrefol a Thramor.

Y Wladwriaeth. — Nid oes dim newydd o bwys mewn perthynas i weithrediadau y llywodraeth. Oherwydd cyfnewidiad pwysig yn amgylchiadau Ymherodraeth gymydogaethol, a'r mesurau sydd yn debyg o gymeryd lle mewn canlyniad, er lleihau, os nid gosod terfyn ar y darpariadau rhyfelawl ag oeddent yn peri ofnau ac yn peryglu heddwch rhwng Ffrainge a gwledydd eraill, y mae genym le i obeithio y gellir bellach arbed y draul anferthol ag oedd yn myned tuag at osod ein gwlad mewn sefyllfa o ddiogel amddiffyniad, ac felly i leihau trethi ag oeddent yn bygwth gwasgu yn drwm ar y bobl.

Masnach a'r Gweithfeydd.—Y mae'r cwmwl etto yn aros uwchben y gweithfeydd cottwm yn enwedig, ond y mae yr ofnau a'r gwanobaith gyda golwg ar fasnach ac ar sefyllfa y gweithwyr, am y gauaf a'r misoedd canlynol, yn hytrach yn lleihau. Yr hyn lleiaf, y mae'r argoelion presenol yn hytrach yn well nâ gwaeth. Disgwylir digon o gottwm o'r India a gwledydd eraill i roddi haner gwaith i'r rhan fwyaf o'r gweithwyr am y gauaf a'r gwanwyn dyfodol, ac wedi hyny o ganolbarth America, y Brazils, Persia, a lleoedd eraill. Yn y cyfamser dywedir fod y Meistri gwaith yn Lancashire yn benderfynol i aberthu llawer yn hytrach nag i'w gweithwyr fyned i bwyso ar y plwyfau. Gobeithiwn fod hyn yn wir, Pa fodd bynag, fel y mae amgylchiadau yn bod, ac yn ngwyneb gauaf sy'n debyg o fod yn galed, y mae galwad uchel, a diau bydd digon o le i weithrediadau dyngarwch a haelioni Cristionogol er cynnorthwyo teuluoedd ar deuluoedd lawer, a fyddant wedi cael eu dwyn i sefyllfa isel iawn o ran cysuron ac angenrheidiau bywyd. Nid yw y caledi a ofnir yn cael ei gyfyngu i'r gweithfeydd cottwm. Hyspysir ni gan gyfaill, o un o'r gweithiau haiarn yn Morganwg, "fod y rhyfel yn America eisoes wedi costi yn ddrud iddo ef ac eraill, a'u bod yn gorfod byw ar hanner gwaith, ac weithiau llai na hyny." Iawn yw ymbarotoi gymmaint ag a ellir erbyn dydd o brawf a chaledi. Ond gobeithiwn y bydd i well amser i wawrio erbyn dechreu y flwyddyn 1862.

Y Cyfandir.—Nid oes dim ag sy'n neillduol gyffröus yn y newyddion diweddar ynghylch teyrnasoedd y Cyfandir, ymhellach na bod y galluoeaf o'r Ymerawdwyr, a'r aflonyddwr penaf, neu yr hyn lleiaf, y gwr a roddai fwyaf o achos i'r ansicrwydd a'r ofn ag oedd yn gorthrymu masnach, ac yn peryglu heddwch, fel ag i gadw miliwn a wyr dan arfau o'i herwydd, wedi cael tynu ei grib i lawr i ryw raddau. A diau bydd yn llawenydd ac yn esmwythâd i lawer llŷs yn Ewrop, i weled y gallant yn ddiofn ollwng eu milwyr at alwadau mwy buddiol a heddychol. Yn Poland Rwssiaidd, ac yn Hungary, y mae y llywodraethau yn parhau i gadw i lawr y bobl â gwialen haiarn. Yn Warsaw a threfydd eraill, lle y dangosir anfoddlonrwydd i'r llywodraeth, teflir hyd yn oed menywod i garchar, a gorfodir gwyr i fyned i'r fyddin, ac eraill a alltudir i Siberia. Y mae Ymerawdwr Awstria wedi cael cymaint o râs ag i hyspysu gwahanol lysoedd Ewrop, nad yw y mesurau caeth a ddygir ymlaen yn bresenol yn Hungary, *ddim ond amserol*, ac y bydd iddynt ddarfod cyn gynted ag y darostyngir y bobl wrthnysig yno, i dderbyn ei gynnygiadau teg ef, yn gyfnewid am eu hen freinniau etifeddiaethol.

America.—Y mae y gelyniaeth rhwng y North a'r South yn myned yn fwy-fwy ffyrnig. Oddieithr ymgyrch annoeth ac anffortunus a wnaed gan y Federals yn mis Medi ar lenny dd uchaf y Potomac, lle y trechwyd hwy yn lan trwy wall lywyddiad eu *General*, yr hwn ei hun a laddwyd ynghyd a channoedd o'i fllwyr gwrol, nid oes genym ddim braidd i'w gofnodi ond parotoadau ymosodawl o'r naill du a'r llall. Y peth mwyaf pwysig, dichon, yw bod General Fremont wedi cael ei droi o'i swydd, er mawr anfoddlonrwydd i'r milwyr oedd dano. Yr oedd ef wedi cyhoeddi rhyddhad i'r caethion y ffordd y cerddai ei fyddin. Nid oedd hyny wrth fodd y llywodraeth yn Washington. Wrth fyned i'r wasg, y mae'r newydd wedi ein cyrhaedd fod llynges y Federals wedi llwyddo i gymeryd yr amddiffynfeydd yn Port Royal, South Carolina, yr hyn sydd yn debyg o droi yn fantais neillduol i wyr y North.

Bu Farw—

Ion. 22ain, 1857, yn 80 mlwydd oed, Mr. Simon Davies, Blaenau Cellan, ger Llanbedr, Ceredigion. * * * Cafodd ei gystuddio am y pymtheg mlynedd olaf o'i oes, ond goddefodd y cyfan yn dawel, gan ymroddi i ewyllys ei Arglwydd, a dywedyd, "Nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys di a wneler, o Dad."

Cafodd ei dderbyn yn aelod o Eglwys Bresbyteraidd Caeronnen oddeutu ugain mlynedd cyn ei farwolaeth, a daliodd atti yn ffyddlon a didramgwydd, hyd y diwedd. Yr oedd yn ddyn diargyhoedd ei rodiad, a chymaint o arafwch yn perthyn iddo ag a'i diogelai rhag cymeryd i fynu yn fyrbwyll a rhywbeth heddyw ag a deflid o'r neilldu yfory. Yr oedd ganddo sel ond yn ol, a than gyfarwyddid gwybodaeth; a hyny megis cymedrol gwastadol, yn lle clindarddach fflam un fynyd a dim ond lludw y fynyd nesaf. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf annhebyg i "fwhwman, a chymeryd ei gylcharwain gan bob awel dysgeidiaeth." Nid oedd yn Galfin heddyw ac yn Armin yfory, ond yr oedd ei ben a'i galon yn rhwym wrth angor bob amser. Teimlwn, bob amser pan yn ei bresenoldeb, fod dyn ger ein bron. Ni pherthynai hyd yn nod cysgod mursendod iddo. Ni oddefai i bethau bychain dibwys ei dramgwyddo neu ei aflonyddu. Ni adawsai i ffyliaid ymyraeth a'i heddwch, a gellir dywedyd am dano, na chyrhaeddodd un diben trwy foddion annheilwng.

Yn ei ymadawiad collodd ei berthynasau ac eraill gyfaill serchog a ffyddlon, a deimlai drostynt, a ddilladai'r cefn noeth, a borthai'r newynog, ac a ddiodai'r sychedig.

O ran ei farn yr oedd y trengedig yn Bresbyteriad selog a didderbyn wyneb. Credai mai un Duw sydd, a hwnw yn Dad cariadlawn. Gellir dywedyd am dano fel y canodd yr hen Ddafis o Gastell Hywel:—

"Dysgu a gwneyd ewyllys Duw,
Hoffai benaf tra fu byw;
Carai Dduw, a charai ddyn,
Fel yr oedd yn caru'i hun."

Ond O! y cyfaill! y mae wedi dihengyd! Y mae wedi disgyn i bryddellau y glyn! "Ei le ni edwyn ddim o hono ef mwy." O! lywodraeth y Brenhin Mawr! Mae ei ffyrdd Ef yn y môr, a'i lwybrau yn y dyfroedd dyfnion.

Darfu Simon Davies huno mewn tangnefedd, a'i lygaid yn gweled iechydwriaeth yr Arglwydd ei Dduw. Ffarwel gyfaill anwyl; ffarwel hyd y boreu mad, pan y gobeithiaf y cawn gwrdd etto, wedi dihuno o gwsg angeu, ar ororau anfarwoldeb, yn Nghaersalem dinas hedd, lle na bydd rhaid ymadael mwy.

"Bellach ar gerdd ddiballiant,—Hosana
Yw seiniau ei foliant,
Emyn ar delyn aur dant,
Mwyngu gân mewn gogoniant."

I. Glan Teifi.

Blaenau Cellan.

Hyd. 22, 1861, yn 67 oed, W. Williams, cylchwr, o bentref Llandyssul. Adnabyddid ef yn mhell ac yn agos fel dyn gonest, didramgwydd a difeddwl drwg. Anhawdd cael neb mor siriol ei dymher yn mhob cyflwr. Yr oedd yn aelod o Eglwys Llwynrhydowen, a phregethwyd yn ei angladd gan y Parch. W. Thomas.

Hyd. 25, yn 48 oed, Mr. D. Jones, Crygymân, Llanwenog, gan adael gwraig a dau o blant ieuainc i deimlo eu golled ar ei ol, a llawer o gyfeillion a'i parchent i weled ei eisiau. Pregethodd yr ysgrifenydd o flaen lluoedd o ddynion ar ddydd ei angladd, oddiar Job xii. 9, a'r xix. 21.

Tau Gimel.

Tachwedd y 4edd, bu farw yn 81 mlwydd oed, yn nhŷ ei ferch yn Rhymni, Job Enoch o'r Neuadd-ddu, Llanfihangel, Ystrad, Ceredigion. Hebryngwyd ei weddillion gan dyrfa barchus o'i frodyr Undodaidd i gladdfa yr Hen Dŷ-cwrdd, Cefncoed-y-cymmer, lle yr erys yn ei drwmgwsg hyd foreu'r codi mawr. Yr oedd yn un o'r hen Undodiaid hynaf yn yr ardal lle yr oedd yn byw; ac hefyd yn un o hen ddysgyblion y pererin duwiol hwnw, Dafydd Jenkin Rhys, o'r Llwydsiac. Bu yn Undodwr am yr hanner can mlynedd diweddaf. A gellir dweud am dano ei fod wedi cael yr anialwch yn ddyrys pan yn ei groesi; ond gorphenodd ei daith yn orfoleddus; mewn oedran teg, ac wedi cadw ei ffydd, a'i gred, yn ddiysgog yn yr un Duw, a hwnw yn Dad, yn yr hwn y gobeithiodd.

C. Ayron.

Barddoniaeth.

ENGLYNION

Ar farwolaeth John Davies, saer, Pant-y-wilco, Llanwnen, Ceredigion, aelod o gôr canu Capel-y-groes, Llanwnen, a dyn defnyddiol yn ei gylch. Bu farw Awst 14eg, 1861, *yn 28ain oed.*

Ioan, mwyn ei amynedd—a duwiol—
Mewn daear sy'n gorwedd;
I'w lwch ef boed tangnefedd,—
Un fu' i fryd o hyd ar hedd.

Da haeddawl fu'r dedwyddyd—wnai roi
I'w riaint cywirfryd:
Ef a'i lais yn ymaflyd,
Wnae'n fyw dân y gân i gyd.

Oer wylo sydd ar yr aelwyd,—bellach
Hêb ball er ei claddwyd,
O fab mad amddifadwyd—y teulu,
Egni a gallu eu car a gollwyd.

Gwag yw cor y cantorion—ar ei ol,
Yr aelod oedd ffyddlon,
O'r braidd y daw'r beraidd don
I'r genau gan oer gwynion.

Ond na wyler—cofier cyfyd—ein Duw
Bob dyn da i wynfyd,
I hoen, yn rhydd o boen y byd—daw'r duwiol
Yn ol i fywiol fwynhau ail fywyd.

Cwrtnewydd. ANEURIN L. JONES.

CWYN YR AMDDIFAD.

TÔN,—*Highland Mary.*

Tydi Ddynoliaeth fynwes fwyn,
O! gwrando gŵyn Amddifad
Sydd ger dy fron, heb Dad na Mam,
Yn crefu'th amddiffyniad;
Ti 'ngweli yma'n noeth a llwm,
I'r eitha'n drwm fy nghalon,
Heb le i orphwys ond y maes,
Na neb i laesu'm loesion!

Tra gwisgir pawb o'r plantos mân
Mewn gwisgoedd glân a phrydferth,
Caf finnau 'rol rhyw un o'u mhysg,
Hen garpiog wisg fai'n ddiwerth;
Tra llammant hwy â bola llawn,
Myfi'n llesg iawn symudaf,
Gan eisiau bwyd, a galar am
Fy Nhad a Mam anwylaf!

Er bod yn wrthrych gofal Mam
A Thad, rhag cam echrydus,
Amddifad llwm wyf nawr sy'n cael,
Ow! drinlaeth wael druenus!
Er maint fy ammharch gan y byd,
Does frawd i gydymdeimlo,—
Na chwaith fy mwyn Rieni mad
A'u cariad i'm cysuro!

Mae'n enbyd tyfai'n ddrwg fy moes,
Waith neb nid oes i'm dysgu;
Rhag maglau drwg y byd â'i frad,
Does Mam na Thad i'm noddi!
Ond er pob trallod ddaw i'm rhan,
Er gŵg rhai *anystyriol*,
Er colli'm hoff Rieni mad,
Mae etto'n fyw 'NHAD NEFOL. C.

ENGLYNION ANERCHIADOL

a ddarllenwyd ar agoriad "yr Eisteddfod," (1861), *o fewn i Gylch yr* ORSEDD.

Gwern Cleppa gilia o'r golwg—yn nhemyl
Llawn amledd Morganwg;
Tynu mae uwch tân a mwg
I deimlo'r cariad amlwg.

Dilwydd yn hir bu'r dalaeth—a rhanol
Oedd rhinau gwybodaeth;
Diorchwyl a diarchwaeth,
Yr Aweu gu ar rewi'n gaeth.

Auraidd ddor hi agora—i dalent
Uwch diliau yng 'WALIA,
Pob gwron, pawb hi gara,
Iddi doed, a'i eiddo da,

Hyll i un estron llawn ystryw—wastad
Ddarostwng y cyfryw;
Cyhoedder yn deg heddyw
Ein nwyfiaith fwyn fyth i fyw.

Bellach hawdd ei ddarbwyllo—i dewi
Yn dawel a gwrido;
'N lle'r yngan a'n llwyr ango,
Egni brwd Gymraeg ein bro.

I fynu o hyd a'r fanon;—hi dŵf
Uwch dyfais pob galon;
Aeres hedd yw'r oes hon,
O nwyf haelaf nefolion.

G. BRYCHEINIOG.

ENGLYN

I'r Ysgrifbin; testun Eisteddfod Conway yn 1861.

Drws crefydd drwy ysgrifau—agorwyd
I gyraedd eneidiau;
Er llesiant yr holl oesau—'r ysgrifbin
Yw llyw a brenin yr holl beirianau.

Cwrtnewydd. G. GWENOG.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.